

## **Polisi costau a threuliau aelodau Cyngor Cymuned Llanystumdwy**

1. Gan fod pob aelod o'r Cyngor Cymuned yn treulio amser yn gweithio o adref ar fusnes y cyngor mae gan aelodau gostau domestig ychwanegol ac mae angen nwyddau traul swyddfa arnynt hefyd. O ganlyniad ni ddylai aelodau fod allan o boced am gyflawni eu dyletswyddau.
2. Gall pob aelod hawlio £156 y flwyddyn (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol (yn cynnwys gwresogi, goleuadau, pŵer a band eang) sy'n gysylltiedig â gweithio gartref. (*Gall y Cyngor gysidro rhoi cyfraniad i'r Cadeirydd tuag at ei waith yn ystod y flwyddyn*).
3. Gwneir y taliad hwn yn ystod mis cyntaf y flwyddyn ddinesig.
4. Bydd unrhyw aelod sy'n gadael y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn ad-dalu y gyfran am yr amser nad yw'n aelod i'r Clerc o fewn mis i roi'r gorau i'w swydd.
5. Yn ychwanegol gall aelod hawlio am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl. Bydd aelodau yn derbyn ad-daliad llawn am gost eu nwyddau traul swyddfa os cyflwynir derbynneb am hynny i'r Clerc o fewn pedair wythnos.
6. Gall unrhyw aelod wrthod derbyn y taliadau, neu ran o'r taliadau os ydynt yn dymuno hynny. Mae'n rhaid gwneud hyn yn ysgrifenedig ac mae'n fater i'r unigolyn. Mae'n rhaid i aelod sy'n dymuno gwrthod taliadau ysgrifennu at y Clerc i wneud hynny.

Bydd y polisi hwn yn cael ei ddiweddarau bob pum mlynedd, yn ystod y chwe mis cyntaf o bob tymor dinesig newydd, neu ynghynt na hynny yn sgîl rheoliadau newydd neu newid mewn deddfwriaeth. Bydd angen mwyafrif o ddeuparth o'r holl Gynghorwyr i newid y polisi.

Mabwysiadwyd: 6 Ebrill 2023

Llofnodwyd gan:

*Cadeirydd - Angela Williams*

*Clerc - Bethan Parry Jones*

Dyddiad: 06.04.2023